Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brian Jones ar ran y Ceidwadwyr Cymreig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod bod cynigion ar gyfer prosiect mawr ynni'r llanw ar arfordir Sir Ddinbych yn cael eu datblygu gan y sector preifat.

Bod angen gwneud gwaith sylweddol i ddod â chynigion aeddfed gerbron y Cyngor, ac y byddai'r Cyngor yn ystyried y cynigion manwl hyn maes o law.

Bod y Cyngor yn cefnogi mewn egwyddor datblygu prosiect ynni'r llanw oddi ar Arfordir Sir Ddinbych.

Yn unol â hynny, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi penderfynu:

1) Cefnogi mewn egwyddor datblygu prosiect mawr ynni'r llanw oddi ar Arfordir Sir Ddinbych.

2) Bod grŵp o aelodau etholedig CSDd, gan gynnwys yr arweinydd neu ddirprwy enwebedig, ac aelod o bob Grŵp Ardal Aelodau yn cael ei sefydlu i fonitro, gwerthuso a datblygu lagŵn llanw yng ngogledd Cymru a lobïo'r ddwy lywodraeth i gefnogi'r prosiect.